**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 18 Ebrill 2023 am 4.30pm.

Cafodd y cyfarfod yma'i ffrydio'n fyw, ac mae'r manylion i'w gweld yma

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd J Turner |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr, Materion Ymgyfreitha

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd T Williams |

## 21 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

## 22 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 23 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023 yn rhai cywir.

## 24 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 21 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 15 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 18 wedi'u rhoi i glybiau preifat. Mae nifer y ceisiadau am hysbysiadau ddaeth i law yn ystod y cyfnod ychydig yn is nag yr oeddwn nhw dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Ymhellach, mae'n ymddangos bod tuedd i'r rhain gael eu cyflwyno ar gyfer gwerthu alcohol mewn gemau rygbi a chwaraeir mewn clybiau lleol a hefyd marchnadoedd crefftwyr neu ffermwyr sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Yn ogystal â hynny, cafodd rhai Hysbysiadau eu cyflwyno gan safleoedd sy'n gwerthu alcohol yn hwyr y nos pan aeth y clociau ymlaen yn y gwanwyn, er mwyn caniatáu i'r safleoedd yma fod agor am yr un nifer o oriau ag arfer.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod dim penderfyniadau wedi'u herio ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r pwyllgor, a bod dim adolygiadau i'w trafod yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, mae'r Hen Swyddfa Bost (Squares) wedi cyflwyno apêl sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Arolygwyd cyfanswm o 46 o safleoedd ledled y fwrdeistref sirol. Roedd angen ymweliadau dilynol ar rai ohonyn nhw oherwydd pryderon ynghylch cydymffurfio â manylion eu trwyddedau.

Clywodd yr Aelodau fod y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei gynnal wedi arwain at ychydig o ostyngiad yn y lefel cyflawniad presennol ar gyfer safleoedd a arolygwyd. Mae bellach yn 89.94% o'i chymharu â 90.38% yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Mae'r swyddogion yn dal ati i gydweithio â'r safleoedd hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Dywedodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio y byddai Aelodau'n cofio mater a amlinellwyd mewn adroddiad blaenorol, sef clwb yn ardal Aberaman yn achosi niwsans sŵn i drigolion. Cafodd y broblem ei lliniaru gan Swyddogion Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd ar ôl ymarfer monitro. Yn anffodus, mae cwynion pellach wedi dod i law, fodd bynnag, mae cyngor wedi'i roi i'r clwb ac ers hynny ni chafwyd unrhyw gŵyn pellach.

Clywodd yr Aelodau fod 2 eiddo trwyddedig (1 yng Nghwm-bach ac 1 yn Ynys-y-bwl) wedi cael Hysbysiad Cau Adran 19 yn dilyn torri amodau o

ran Teledu Cylch Cyfyng. Mae'r safleoedd wedi cydymffurfio â'r Hysbysiadau hyn hyd yma a byddant yn aros yn eu lle hyd nes y cyflawnir cydymffurfiaeth lawn. Wedyn bydd Swyddog yn cynnal ymweliad arall i sicrhau cydymffurfiaeth.

Dywedwyd bod tafarn yn Aberdâr wedi ffonio Heddlu De Cymru yn gofyn am gymorth ynghylch ymgyrch 'GOFYNNWCH AM ANGELA'. Roedd staff wedi gweld dyn yn ceisio cusanu menyw gan wneud iddi deimlo'n anghyfforddus. Mynychodd Heddlu De Cymru a gofyn i'r dyn adael, ac fe wnaeth e hynny. Doedd y cwsmer benywaidd ddim eisiau gwneud cwyn. Mae'r Garfan Drwyddedu
yn dwyn hyn i sylw Aelodau i ddangos bod cynllun Gofynnwch am Angela yn cael ei ddefnyddio ar draws y Fwrdeistref a'i fod yn llwyddo i wneud i bobl agored i niwed deimlo'n fwy diogel tra'u bod yn ymweld â'n safleoedd trwyddedig.

Yn ogystal â hynny, mae clwb aelodau preifat yn ardal Trallwng ym Mhontypridd wedi cael problemau blaenorol gyda chwynion am sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol - yn deillio'n bennaf o'i ardal ysmygu. Mae'r Swyddogion Trwyddedu wedi ymweld â'r safle i gynnig cyngor ac arweiniad, ar y cyd â Heddlu De Cymru. Mae Swyddogion Trwyddedu a'r eiddo wedi cytuno i gyflwyno cais Mân Amrywiad i gynnwys TCC yn yr eiddo a'r man ysmygu.

Mae cwynion wedi dod i law drwy aelodau Gwarchod Tafarndai (Pubwatch) Pontypridd bod safle trwyddedig yng nghanol tref Pontypridd yn aros ar agor yn hwyrach na'r hyn a ganiateir. Hefyd, cynhaliwyd ymweliad ar y cyd gan Swyddogion Awdurdod Lleol a Heddlu De Cymru lle nodwyd bod y safle ddim yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded ac mae ymchwiliadau pellach yn parhau. Bydd diweddariad am hyn yn yr adroddiad nesaf.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Trwyddedu wedi rhoi cyngor ar achlysuron mewn clwb aelodau preifat ym Mhont-y-clun, ac maen nhw wrthi'n ystyried opsiynau o ran newid i Drwydded Safle i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Trwyddedu 2003 wrth gynnal yr achlysuron dan sylw.

Atgoffwyd yr aelodau bod Heddlu De Cymru a Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol wedi cynnal ymweliad ar y cyd yn dilyn ymosodiad mewn eiddo trwyddedig ym Mhontypridd a arweiniodd at ymosodiad ar ddau Heddwas y tu allan i'r eiddo. Ymhellach, mae cyngor ac arweiniad llawn wedi'u cynnig i Ddeiliad y Drwydded Safle a'r Goruchwyliwr Penodedig, gyda chynllun gweithredu i'w roi ar waith i wella amodau'r Drwydded Safle gyfredol. Fodd bynnag, roedd y safle'n cyflogi dau aelod o staff drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar y noson dan sylw. Mae Deiliad y Drwydded Safle wedi rhoi sicrwydd i'r Awdurdodau na fyddant yn dychwelyd i'r eiddo mewn swydd gyflogedig.

Dywedodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio

fod ymchwiliadau parhaus i eiddo sydd â thrwydded hwyr yn ardal y Porth sydd wedi bod yn destun nifer uchel o gwynion sŵn dros y 3 blynedd diwethaf, a bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Trwyddedu a Heddlu De Cymru yn cydweithio ar y mater. Dywedodd hefyd bod disgwyl i'r apêl gael ei gynnal ar 7 Mehefin 2023.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gyfarfod cyn ymgeisio sydd wedi'i gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor i drafod Trwydded Safle ar gyfer Swyddfa'r Post yng Nghanol Tref Pontypridd. Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i'r darpar ymgeisydd mewn perthynas â gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle a'r problemau penodol o fewn canol y dref, megis y PSPO, lleoliad asiantaethau a'r economïau yn y dydd a'r nos. Yn ogystal, mae gan yr ymgeisydd posibl nifer o eiddo trwyddedig ac roedd yn gallu dangos i'r Awdurdodau ei fod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Amcanion Trwyddedu, fodd bynnag, nid oes cais wedi'i gyflwyno hyd yma.

Ymhellach, mae cyfarfod cyn ymgeisio wedi'i gynnal mewn perthynas â Chaniatáu Trwydded Safle yng nghanol tref Pontypridd ar gyfer pizzeria Eidalaidd ac fe gynigiodd yr ymgeisydd posibl rywfaint o sicrwydd i'r Awdurdodau ei fod yn awyddus i gydweithio yn y dyfodol. Hefyd, nododd y byddai'r amseroedd y gwnaed cais amdanynt yn bennaf yn ystod y dydd ac yn gynnar gyda'r nos gyda chaniatâd alcohol ar gyfer yfed ar y safle yn unig er mwyn diogelu'r PSPO. Mae'r cais wrthi'n cael ei adolygu.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed newyddion da am Westy'r Wyndham yn y Rhondda sydd wedi derbyn Canmoliaeth Uchel am Y Dafarn a Chlwb Cymdeithasol Gorau 2023 yng Ngwobrau Busnes Cymru. Mae'r dafarn falch iawn o'r cyflawniad hwn yn enwedig gan mai dim ond ers 18 mis y mae'r safle wedi bod ar agor o dan reolaeth newydd.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod talu ffioedd blynyddol yn parhau i fod ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer adeg yma'r flwyddyn. Serch hynny, mae deiliaid trwyddedau fel arfer yn gohirio talu tan ar ôl cyfnod y Nadolig.

Yn ogystal â hynny, mae swyddogion wedi bod yn monitro hyn ac yn mynd ar drywydd taliadau a gollwyd, yn dilyn y cynnydd mewn taliadau ym mis Ionawr/Chwefror 2023. Mae gan yr awdurdod broses gadarn iawn i sicrhau y derbynnir taliadau a bydd yn cymryd camau megis ataliad lle bo angen. Mae trwydded sawl safle wedi cael ei gohirio yn ystod y cyfnod hwn, sydd wedi sbarduno ymateb, gyda safleoedd yn gwneud taliad er mwyn cael gwared ar y gohiriad. Mae swyddogion wedi nodi bod cynnydd yn yr amser a dreulir yn mynd ar drywydd ffioedd ar gyfer deiliaid trwydded eiddo sydd wedi gadael y busnes, ond heb ildio'r drwydded a hysbysu'r garfan yn unol â hynny.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 5.1 o'r adroddiad ac fe gawson nhw ddiweddariad o ran Deddf Gamblo 2005.

**25 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**26 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 16.01.23 - 13.03.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 16 Ionawr 2023 a 13 Mawrth 2023 i'r Aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.41pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.